DATGANIAD I'R WASG
Dydd Llun 31 Mai 2010

Enillydd lleol i'r Fedal Gelf

EMBARGO 2:15 o'r gloch 31 Mai 2010

Mae'r Fedal Gelf, Dylunio a Thechnoleg yn cael ei chyflwyno am yr eitem orau yn yr Adran Gelf, Dylunio a Thechnoleg o dan 18 oed. Yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ceredigion 2010, enillydd y fedal yw Judith Musker Turner, 17 oed, disgybl yn Ysgol Uwchradd Tregaron, Ceredigion.

Daw Judith o Ffair Rhos. Mae ym mlwyddyn 12 ac yn astudio Saesneg, Cymraeg, Ffrangeg, Hanes a Thecstilau. Mae hi'n gobeithio astudio cwrs Sylfaen Celf yng Nghaerfyrddin ar ôl gorffen ei Lefel A, ac yna efallai cyfuno ei diddordebau trwy fynd i brifysgol i astudio'r Clasuron.

Meddai Judith:
"Rwy'n cael fy nylanwadu gan wahanol diwylliannau a chyfnodau o hanes, yn enwedig y byd clasurol. Defnyddiais 'Rhufain' fel ysbrydoliaeth ar gyfer fy ngwaith TGAU. Gobeithiaf astudio Lladin i AS y flwyddyn nesa. Rwyf hefyd yn cael fy ysbrydoli gan waith arlunwyr a darlunwyr eraill, ac yn hoffi ymchwilio ac astudio cyfnodau gwahanol yn ymwneud â hanes Celf. Fy hoff arlunydd ydy Dante Gabriel Rossetti oherwydd rwy'n caru'r symbolaeth yn ei waith, a cheisiaf roi ystyr a neges yn fy ngwaith fy hun. Hoffaf weithio yn 3D oherwydd mae ansawdd yn elfen bwysig o waith tecstilau.

Rwy'n mwynhau chwarae'r soddgrwth, darllen a cheufadu yn fy amser rhydd.

Mae ennill Medal Gelf yr Urdd eleni yn anrhydedd mawr i mi, ac rwy'n ddiolchgar iawn i fy ysgol ac yn enwedig Mr a Mrs Williams, fy athrawon celf a thecstilau, am eu holl gefnogaeth yn yr ysgol."

Rhoddir y Fedal Gelf eleni gan Glwb Cinio Aberystwyth.

Bydd cyfle i dynnu lluniau a chyfweld Judith yn yr Arddangosfa Gelf, Dylunio a Thechnoleg am 2.45 heddiw.

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

PRESS RELEASE
Tuesday 31 May 2010

LOCAL WINNER FOR ART, DESIGN AND TECHNOLOGY MEDAL

EMBARGO 2:15 o'clock 31 May 2010

The Art, Design and Technology Medal is presented for the best item in the Art, Design and Technology Department under 18 years old. In Urdd Gobaith Cymru National Eisteddfod, Ceredigion the winner of the medal is Judith Musker Turner, a pupil at Ysgol Uwchradd Tregaron, Ceredigion.

Judith lives in Ffair Rhos. She is in Year 12 and studying English, Welsh, French, History and Textiles. After completing her A Levels she hopes to follow an Art Foundation course at Carmarthen then amalgamate all her interests and study Classics at university.

Says Judith:
"I'm influenced by different cultures and periods of History, especially the classical world. I used Rome as inspiration for my GCSE work. I hope to study Latin AS next year. I'm inspired by various artists and enjoy researching different periods in Art History. My favourite artist is Dante Gabriel Rossetti because I enjoy the symbolism in his work and I try to put meaning and a message in my own work. I enjoy working in 3D because texture is important in textiles.

I enjoy playing the cello, reading and kayaking in my spare time.

Winning the Art Medal is a tremendous honour, and I'm very grateful to the school and especially Mr and Mrs Williams, my art and textile teachers for all their support."

The Art Medal is given this year by Clwb Cinio Aberystwyth.

Judith will be available for interviews and photographs at the official opening of the Art, Design and Technology Exhibition at 2.45 today.

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361